Site Stakeholder Group

SAFLE TRAWSFYNYDD
COFNODION Y PYMTHEGFED CYFARFOD O GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE
A GYNHALIWYD YN Y GANOLFAN GYNADLEDDA A CHYNEFINO
DDYDD LLUN 6 MEHEFIN 2011

YN BRESENNOL

Y Cyngh. J Isgoed Williams	Cadeirydd,

Safle Trawsfynydd

Mr Dave Wilson	Cyfarwyddwr y Safle
Mr H Madog Jones	Magnox
Mr Kevin Titley	Magnox
Mr Raymond Parry	Magnox
Mrs Delyth Heath	Magnox
Mr Richard Foxhall	Magnox
Mr Gwyn Roberts	Magnox
Mr Herbert Renfield	Magnox
Mr David Finchett	Magnox
Mrs Angharad Rayner	Magnox
Mr Bryan Halsey	Magnox
Mr Billy Vallely	Magnox

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Ms Amanda French
Mr Jonathan Jenkin

Cyngor Gwynedd

Y Cyngh. Thomas Ellis

Cynghorau Tref a Chymuned

Y Cyngh. D Meredydd Williams	Cyngor Cymuned Maentwrog
Y Cyngh. Dafydd Watts	Cyngor Cymuned Llanfrothen
Y Cyngh. John Richards	Cyngor Cymuned Talsarnau
Y Cyngh. D Morris Jones	Cyngor Penrhyndeudraeth
Y Cyngh Beryl Williams	Cyngor Tref Ffestiniog

Grwpiau a Mudiadau Cymunedol

Mr Idwal Williams	Traws-Newid
Mr Iolo ap Gwynn	APCE

Arsylwyr

Mrs Catrin Roberts	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mr Chris Kemp	HSE (ONR)
Mr Alan Hall	Awdurdod Dŵr Cymru
Mr Aled Jones	Cyfieithu - Cymen
Miss Gwawr Jones	Ysgrifennydd Cofnodion

1. Ymddiheuriadau

Mr Andy Mcteer	Magnox
Mr Robin Phillips	Magnox
Mr Robin Ward	Magnox
Mr Nick Woodcock	Magnox
Mr John Idris Jones	Magnox
Mr Paul Kennedy	Asiantaeth Safonau Bwyd
Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas	Aelod Cynulliad
Mrs Shirley Hughes	Cyngor Gwynedd
Mr Dewi Lewis	Cyngor Gwynedd
Mr Richard Ninnes	CCW
Mr Keith O'Brien	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mr Elfyn Llwyd	Aelod Seneddol

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a bu iddo longyfarch cwmni Cymen ar ran y pwyllgor am dderbyn 'gwobr arloesedd' yn Wythnos Fusnes Gwynedd yr wythnos ddiwethaf. Roedd Magnox hefyd yn noddi gwobr Entrepreneur y Flwyddyn yn y noson wobrwyo.

2. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr 2010

Cofnod 4 - Nodwyd nad oedd Mr Glenn Vaughan wedi gadael yr ADN fel y cofnodwyd, yn hytrach mae mewn swydd arall o fewn yr ADN. Dylid nodi yn ogystal mai'r ADN fel corff a fyddai'n derbyn cyllideb o £3 biliwn yn hytrach na safle Trawsfynydd.

Cofnod 6.2 – Y craidd graffit sy'n cael ei ddiogelu.

Cymeradwywyd a derbyniwyd y cofnodion.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

4. Anerchiad y Cadeirydd

4.1. Croesawyd Mr Dave Wilson fel Cyfarwyddwr newydd y Safle. Trefnwyd cyfarfod ym mis Chwefror rhwng Mr Wilson ac aelodau o'r pwyllgor ac roedd hwn yn gyfarfod buddiol i bawb.

4.2 Mynychodd Mr Idwal Williams gyfarfod yn Llundain ar ran y Cadeirydd. Bydd Mr Williams yn cyflwyno adroddiad byr yn ystod y cyfarfod.

4.3. Yn dilyn y drasiedi erchyll yn Siapan dros y misoedd diwethaf, estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad at y dioddefwyr. Diolchodd i Mr Richard Foxhall am gyd-weithio gyda'r grŵp a throsglwyddo unrhyw wybodaeth iddynt. Sicrhaodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw achos poeni yng nghyd-destun safle Trawsfynydd ac nad oedd dim i'w adrodd ar y mater.

4.4. Mr Idwal Williams – Adroddiad

Diolchodd Mr Williams am y croeso a'r cyfeillgarwch a ddangoswyd iddo gan Gadeirydd a Chyfarwyddwyr Magnox a soniodd pa mor ddiolchgar oedd Mr Neil Baldwin fod cynrychiolydd o safle Trawsfynydd wedi mynychu'r cyfarfod. Roedd Mr Richard Sexton, y gŵr sy'n gyfrifol am safleoedd Trawsfynydd a Bradwell, wedi'i blesio'n arw gyda chynnydd y safle. Amlinellwyd cynllun y cwmni mewn 5 pwynt a fydd yn cael eu trafod rywbryd eto. Cyflwynwyd adroddiad ar gyfer pob safle ac roedd toriadau yn elfen

annatod o bob trafodaeth. Awgrymwyd y byddai angen i'r Undebau drafod yn helaeth ar y mater. Tua'r adeg hwn, roedd trychineb Siapan yn bwnc llosg a chafwyd cyflwyniad gan Mr Joe Lamonby yn amlinellu sut yr oedd y DU yn cefnogi ac yn cynorthwyo'r wlad. Dywedodd nad oedd yr un perygl i'r DU o ddigwyddiad tebyg.

5. Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle

Diolchodd Mr Dave Wilson i'r gymuned ac i'r gweithwyr am y croeso cynnes a dderbyniodd yn Nhrawsfynydd.

5.1. Dywedodd Mr Wilson mai nod Trawsfynydd yw sicrhau bod y safle yn cyrraedd cyflwr Gofal a Chynnal priodol a diogel erbyn Rhagfyr 2016. Mae diogelwch yn cael ei bwysleisio ac mae offer a mesurau diogelwch mewn lle i sicrhau bod y gweithle'n fan diogel i bawb.

5.2. Y prif bryder ar draws pob safle yw cyllid. Y cyllid ar gyfer 2011/12 yw £84 miliwn a bydd y cyllid i'r dyfodol ar gael yn unol â'r galw a'r angen amdano.

5.3. Cafwyd tân bychan ar y safle yn ddiweddar. Galwyd y gwasanaethau brys lleol a llwyddwyd i'w ddiffodd gyda diffoddydd tân. Dechreuodd y tân o ganlyniad i ynysydd yn gor-gynhesu ac achosodd lawer o fwg yn ei dro. Dylid canmol y gwasanaethau brys am eu gwaith, ac roedd yn enghraifft o arfer da wrth ymateb i dân ar y safle.

5.4 Mae Storfa'r Gwastraff Lefel Ganolraddol bellach yn ei lle. Mae 53 o becynnau yn y storfa ac mae oddeutu 250 yn barod ar gyfer y cyfnod Gofal a Chynnal.

5.5 Y dyddiad targed ar gyfer Adweithydd 1 yw Awst 2011 a'r nod ar gyfer Adweithydd 2 yw Medi 2011.

5.6 Gweddillion Elfennau Tanwydd (FED) – Adfer a Mewngapsiwleiddio

Disgwylir y bydd Gât Peirianneg 4 yn cael ei chwblhau erbyn Rhagfyr 2011. Caiff cyfarpar newydd ei osod a fydd yn cludo'r deunydd allan yn gynt ac yn fwy effeithiol.

5.7 Cyfleusterau Trin Malurion a Storfa Magnox

Mae trafodaethau ar y gweill ar hyn o bryd gyda Dungeness i brosesu'r 100 drwm sydd ar ôl a'u hanfon erbyn diwedd 2011. Mae'r cyllid yn ei le ac mae'r broses ar waith.

5.8 Llynnoedd

Dywedodd Mr Wilson eu bod ar hyn o bryd yn adolygu eu statws gydag arbenigwyr a rheolyddion yng nghyd-destun y llynnoedd. Ceid adroddiad ar y mater yn unol â'r datblygiadau. Mae dewisiadau'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer y cyfnod cyflwr terfynol.

5.9 Cyflogaeth Economaidd-Gymdeithasol

Cyfanswm a gyflogir	682
Staff	199
Asiantaeth/CSW	184
Contractwyr	379

Gweithwyr gyda chod-post LL 386

(Nid yw pob asiantaeth a chontractwr yn gweithio ar raddfa amser-llawn ar y safle)

(Mae'r niferoedd yn newid dros amser ac ar gyfer amrywiol brosiectau)

Mynegodd Mr Wilson ei awydd i gefnogi'r gymuned a chydnabod unigolion talentog a chyfraniadau amrywiol.

5.10 Estynnwyd gwahoddiad i unrhyw grwpiau ac asiantaethau a fyddai'n hoffi cael eu tywys ar daith o amgylch y safle.

5.11 Mae'r prosiectau mawr sydd ar droed yn datblygu'n dda a cheir trafodaethau rheolaidd gyda rhanddeiliaid, cymunedau, ysgolion, gwleidyddion a rheoleiddwyr.

5.12 <u>Cwestiynau</u>

a. Yng nghyd-destun y brasnaddu, a fyddwch yn symud y dyddiad pan fydd pethau'n dod i ben ymhellach ymlaen yn 2016, ac a fyddwch chi'n arbed arian i'r trethdalwr neu a fydd yn golygu llai o waith?

Mae llawer o waith i'w wneud. Ar hyn o bryd, rydym yn ceisio cytuno ar yr hyn a olygir wrth 'glân' a'r hyn a ddisgwylir yn y pen draw. Ynghylch lleihau uchder yr adeilad, mae'n dibynnu ar y cyllid sydd ar gael. Mae'r ADN yn canolbwyntio ar achosion risg uchel fel arfer, ond byddwn yn cael cymaint o arian ag sydd ei angen arnom i ddelio â gwastraff peryglus. Drwy reoli'r cyfan yn ganolog, bydd yn arwain at £1 biliwn o arbedion i drethdalwyr drwy'r ADN. Yn gyffredinol, drwy wneud y gwaith yn gynt, bydd yn arbed arian o ran gorbenion. Drwy ymestyn y dyddiad i 2016, mae ychydig yn fwy o amser i drefnu'r gwaith.

b. Soniodd y cyfarwyddwr blaenorol y byddai oddeutu 300 o swyddi ar gael. Fy mhryder i yw'r ffaith bod pobl leol wedi'u cyfweld ac wedi cael y swydd, ac eto, heb gael unrhyw waith. Mae hyn yn edrych yn dda o safbwynt cysylltiadau cyhoeddus, ond mae'n bwnc difrifol sydd angen ei drafod. Mae'r bobl leol yn cael eu camarwain ac mae hygrededd y ADN yn dirywio wrth iddynt newid yr amserlen o un flwyddyn i'r llall.

Erbyn 2014, gwneir ymdrech sylweddol i sicrhau bod y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud. Bydd angen mwy o bobl arnom am gyfnod byrrach. Rydym yn gwneud y defnydd gorau posib o'r gweithwyr sydd gennym ar y safle ar hyn o bryd ac yn ceisio sicrhau cynaliadwyedd yn y gweithle dros gyfnodau hirach. Rydym yn ceisio cynnig cyfleodd i weithwyr lleol, ond mae angen sgiliau addas arnynt. Byddwn yn parhau i gyd-weithio gyda'r cynghorau a'r ADN i gwblhau'r gwaith.
Mae'n gyfnod anodd. Cawsom setliad ariannol gwell na'r disgwyl ac rydym yn ffodus iawn ohono. Mae'n rhaid i ni gynnal cyflogaeth ac rydym mewn sefyllfa eithaf da ar hyn o bryd.

c. Rwy'n bryderus ynghylch yr oedi yn lleihau uchder yr adeilad. Pan ddaw 2016, a fydd yna esgus arall a rhagor o oedi?

Nid oes llawer y gallwn ei wneud ac eithrio nodi eich pryder. Mae'r cyllid wedi'i neilltuo ac mae'n rhan o'r amserlen.

d. Pryd ddaw'r cyfnod hwnnw pan fyddwch yn fodlon? A fydd yn golygu gwario miliynau o bunnoedd? Beth fydd y pwynt di-droi'n-ôl lle bydd rhaid gwneud rhywbeth?

Nid yw hon yn sefyllfa ddu a gwyn. Rydym yn cynnal archwiliadau, ac mae pob archwiliad yn gofyn am waith cynnal a chadw. Mae'r atgyweiriadau yn unol â'r amserlen sydd gennym ar hyn o bryd a byddant wedi'u cwblhau erbyn 2026.

e. Mae swyddi yn cael eu cynnig a'u rhoi i bobl y tu allan i'r ardal. Mae'n drueni mawr bod y swyddi hyn yn cael eu rhoi ar draul y bobl leol.

Mae'n anodd sôn am enghreifftiau penodol. Rydym yn ceisio rhoi cymaint o waith â phosib i bobl leol drwy hysbysebu mewn canolfannau gwaith lleol, ond os nad yw'r sgiliau gofynnol ganddyn nhw, rhaid ystyried pobl eraill. Ni ellid trafod enghreifftiau unigol, ond rydym yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau er mwyn gwella'r ddarpariaeth sydd ar gael.

f. Mae ffigurau diweithdra yn yr ardal yn uchel iawn oherwydd bod cymaint o swyddi ar gael ar y safle, ond nid yw'r di-waith yn cael y swyddi hyn.

Mae llawer o'r swyddi sydd ar gael yn swyddi fel rheolwyr prosiectau, peirianwyr ac ati. Os na allwn ddod o hyd i'r cymwysterau'n lleol, bydd rhaid mynd i chwilio yn rhywle arall. Mae rheolwr prosiectau, yn ôl natur y swydd, yn tueddu i symud o un lle i'r llall. Rwy'n cytuno ei bod yn drueni os na all pobl gael gwaith yn lleol. Cytundeb 5 mlynedd ar y mwyaf yw llawer o'r swyddi, ac wedi'r cyfnod hwnnw, bydd niferoedd yn lleihau.

g. Nid ydw i'n sôn am y swyddi lefel uchel, rwy'n sôn am waith labro. Mae safle o'r fath yn arbennig i ddechrau gweithio.

Nid ydym ni'n recriwtio gweithwyr ar hyn o bryd. Os nad oes gwaith ar gael, nid oes dim y gallwn ni ei gynnig, ond rydym yn cyd-weithio gyda'r undebau. Rhaid i ni hefyd wneud yn fawr o'r dynion sydd yn gweithio yma ar hyn o bryd.

Mr Richard Foxhall
Mae'r safle wedi bod yn cefnogi pobl ifanc, leol ac mae gennym 3 chynllun prentisiaeth. Nid yw Gyrfa Cymru wedi bod gystal yn hysbysebu'r cynlluniau prentisiaeth yn yr ardal hon, ond rydym yn disgwyl iddynt ganolbwyntio ar hysbysebu ym Meirionnydd (yn y Cambrian News) felly mae'n bosib y bydd mwy o ddiddordeb bryd hynny.

h. Pryder arall sydd gennyf yw'r ffaith nad yw graddedigion ifanc hyd yn oed yn cael eu hystyried am gyfweliadau yma.

Mae'n anodd iawn cyffredinoli, ond mae'n rhaid cofio erbyn y bydd y gweithwyr ifanc hyn yn dod at ddiwedd eu prentisiaethau y byddwn yn dechrau lleihau niferoedd ar y safle. Fel rheol, yr olaf i mewn yw'r cyntaf allan. Nid oes pwrpas hyfforddi diangen.

i. Mae sôn am 500 o weithwyr yn symud i Wylfa ac ati. Beth sy'n digwydd?

Mae rhai pethau o fewn ein rheolaeth. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal sesiynau gyda'r undebau i benderfynu a oes cyfle i gydweithio rhwng y ddau safle. Ond rhaid cofio bod safle Wylfa yn wahanol iawn i safle Trawsfynydd.

Y Cyngh. Isgoed Williams
Mae pryder cyffredinol ynghylch cyflogaeth. Byddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw ddatblygiadau ar y mater.

6. Adroddiad gan y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng
Croesawyd Mr Herbert Renfield i gyflwyno adroddiad ar ran Mr Robin Ward.

6.1. Materion Rheoli
Cynhaliwyd y cyfarfod adolygu ymarfer blynyddol gyda'r NII lle trafodwyd manylion yr ymarfer lefel 1. Caiff yr ymarfer ei gynnal ar 19 Gorffennaf.

6.2. Trefniadau
Ar ôl cyfnod maith o drafod gyda'r gwasanaeth tân a chynrychiolwyr y safle, nid oes tîm o ddiffoddwyr tân yn cael eu cyflogi ar y safle mwyach. Mae Tîm Achub newydd yn cael ei greu i fod ar gael ar gyfer gweithgarwch beunyddiol y safle.

6.3. Fforwm Cynlluniau Argyfwng
Mae fforymau ar-lein wedi'u sefydlu i drafod amcanion cynlluniau a cheisio cyd-weithio gyda'r gweithwyr ar y safle i sicrhau'r gwerth gorau o'r ymarfer. Mae'r Fforwm Cynlluniau Argyfwng yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi hynod ddefnyddiol gyda Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru. Rydym eisoes wedi cynnal hyfforddiant arbenigol gyda phump o'r Gorsafoedd Tân lleol a bu Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ymweld â'r safle ac yn trafod â'r timau. Er bod agweddau i'w gwella o hyd, mae canolbwyntio ar agweddau fel Cymorth Cyntaf wedi profi yn llwyddiant.

6.4. Dros y gaeaf bu'n rhaid cau'r safle am wythnos cyn y Nadolig i staff nad ydynt yn hanfodol oherwydd yr eira mawr. Gwelwyd bod cysylltu drwy gyfrwng y wefan yn ddull effeithlon o gyfathrebu dros y cyfnod hwn.

6.5. Cafwyd adroddiad o'r tân ar Fai 5ed ym mhapur y *Daily Post*. Nodwyd yn yr adroddiad bod gweithwyr wedi gorfod gwacáu'r safle, ond nid oedd hynny'n wir.

Cwestiynau
a. Sonioch eich bod wedi cael gwared ar y gwasanaeth tân. A ydych wedi cael gwared ar wasanaeth y frigâd dân yn ogystal?

Na. Mae'n rhan allweddol o'n trefniadau ni. Roedd y frigâd dân yn bresennol ar Fai 5ed, oherwydd penderfynodd y tîm ar y safle y dylai arbenigwyr ddelio â'r tân.

b. Adeg y tân, gofynnodd gwraig o Faentwrog i'r gwasanaeth tân beth oedd yn digwydd ar y safle a dywedwyd wrthi fod yna dân. Yn amlwg, roedd yn poeni'n arw, ond nid oedd unrhyw wybodaeth yn cyrraedd y bobl yn y gymuned. Mae'n drueni nad oes mwy o gyfathrebu â'r cyngor lleol a'r gymuned. Mae angen i ni wybod y manylion mewn digwyddiad o'r fath.

Y Cyngh. Isgoed Williams - Rwy'n derbyn eich pwynt, ond mi dderbyniais alwad ffôn i egluro'n union yr hyn oedd wedi digwydd. Cefais fy sicrhau nad oedd yn ddigwyddiad o bwys. Byddwn wedi cysylltu â chi'n syth wrth reswm pe bai lle i boeni.

Mae'n rhaid i ni gofio y gall y cyfryngau or-ymateb a byddai hynny wedi cam-arwain y cyhoedd. Petai'r digwyddiad wedi bod yn ddifrifol, byddai'r cyfryngau yn ymwybodol o hyn. Mr Richard Foxhall yw'r Swyddog Cyfathrebu a byddai wedi cysylltu â chi pe bai'r digwyddiad yn ddifrifol. Roedd i ffwrdd ar wyliau ar y pryd, ond ymdriniwyd â'r cyhoedd yn effeithlon a chafwyd datganiadau i Radio Cymru a'r *Daily Post*. Cynigwyd y dylid casglu rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost yr aelodau i sicrhau cyfathrebu effeithlon petai achos fel hwn yn codi eto.

c. Mae cwynion wedi bod o'r blaen lle nad yw pobl yn ymwybodol o'r hyn sydd yn digwydd. Ni fyddai wedi bod yn llawer o ymdrech i anfon gair at y radio, neu dylai system fod mewn lle i gadw mewn cysylltiad â'r bobl leol. Dylai Radio Cymru fod wedi gwneud cyhoeddiad.

Gan ymateb i'r strwythur ymateb, cyflwynwyd datganiad i'r wasg o fewn 20 munud i sôn am y tân ac i sicrhau nad oedd lle i ofidio. Roeddem ni wedi cysylltu â Radio Cymru. Cafodd y trefniadau hyn eu gweithredu o fewn 20 munud a gwnaethom ein gorau glas. Os oes gennych unrhyw syniadau, byddem yn hapus i'w hystyried.

d. Mae safle glanio hofrennydd ar y safle hwn. A yw'n bosib ei ddefnyddio, ydi'r Ambiwlans Awyr yn gallu ei ddefnyddio ar hyn o bryd?

Gellid ei ddefnyddio, ac mae wedi cael ei ddefnyddio ar sawl achlysur. Yn ddiweddar, y Llu Awyr sydd wedi bod yn ei ddefnyddio fwyaf (gyda hofrenyddion Chinook), ond yn sicr, gall yr Ambiwlans Awyr ei ddefnyddio.

7. <u>Adroddiad gan Arolygwyr Gosodiadau Niwclear y Safle (NII)</u>
Croesawyd Mr Chris Kemp ac ymddiheurodd os nad oedd rhai o'r aelodau wedi derbyn yr adroddiad ar gyfer y chwarter cyntaf. Mae'r cyfnod asesu wedi dechrau a dylid cael canlyniad mewn 5 mis.

7.1. Bydd y cyfarfod adolygu diogelwch blynyddol yn cael ei gynnal y prynhawn yma ac yfory er mwyn archwilio'r adweithyddion ac i gyfarfod â phrif weithredwr a gweithwyr Magnox. Ym mis Gorffennaf, cynhelir yr ymarferiad blynyddol o'r offer er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

8. <u>Adroddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd</u>
Roedd Mr Steve Howard yn absennol o'r cyfarfod, felly ni chafwyd adroddiad.

9. <u>Adroddiad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear</u>
Croesawyd Ms Amanda French a chroesawodd hithau yn ei thro Mr Jonathan Jenkin a fyddai'n trafod yr hyn a gyflawnwyd ar y safle. Dros y 6 mis diwethaf, gwnaethpwyd gwaith i sicrhau eu bod yn diwallu gofynion yr ADN yn ddiogel. Daeth y flwyddyn ariannol i ben ym mis Mawrth a nodwyd iddi fod yn flwyddyn lewyrchus. Mae'r safle yn parhau i ddiwallu'r ymrwymiadau a wneid i'r ADN.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau.

9.1. Jonathan Jenkin

Mae strategaeth yr ADN wedi'i chyhoeddi, sef dogfen sy'n amlinellu'r strategaeth genedlaethol, dyddiadau cerrig milltir, cynnal a chadw, costau datgomisiynu ac ati. Mae'r holl wybodaeth ar gael ar y wefan, ac mae copïau papur ar gael pe dymunir.

9.2. Mae'r cynllun busnes diweddaraf wedi'i gyhoeddi, sef dogfen sy'n cynnwys manylion y cynlluniau gwariant dros y flwyddyn bresennol ac am y blynyddoedd i ddod. Mae'r holl wybodaeth ar gael ar y wefan.

9.3. Mae cyd-weithio agos wedi bod rhwng asiantaethau allweddol yng Ngwynedd a Môn ac mae cyllid sylweddol o £4 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer yr ardal.

9.4. Is-ddatblygiadau

Mae'r ADN a Magnox wedi profi newidiadau sylweddol. Bydd Magnox yn cymryd rhan amlycach yn sicrhau manteision economaidd-gymdeithasol yn sgil y newid hwn. Bydd y cynlluniau datgomisiynu yn dylanwadu ar y gymuned, ac mae disgwyl i Magnox ddarparu'r Cynlluniau Economaidd-Gymdeithasol erbyn diwedd Medi. Gyda chyllid ychwanegol, bydd mwy o gyfleoedd i Magnox ariannu prosiectau amrywiol.

9.5 Cwestiynau

a. A oes unrhyw ddatblygiadau yn ymwneud â Maentwrog?

Mae'r strategaeth tir yn cynnwys adeiladau ar y safle ac oddi ar y safle. Y brif swyddogaeth yw sicrhau y gwerth uchaf posib. Rydym yn adolygu ac yn gwerthuso ein hasedau o bryd i'w gilydd. Mae'n debyg iawn y byddwn yn adolygu'r safle ond nid wyf yn gwybod pryd. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau i'w werthu. Mae gwerth am arian a barn y rhanddeiliaid yn allweddol. Edrychir ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd a phenderfynu ar ateb a fydd yn diwallu'r anghenion amrywiol.

b. Yn ôl cofnodion y cyfarfod diwethaf, soniwyd am gydweithrediad gyda Gwynedd. A oes gennych chi unrhyw beth i'w ychwanegu at y pwnc hwn? A oes gennych chi unrhyw sylwadau am adroddiad Hyder?

Mr Gwyn Roberts:

Soniodd adroddiad Hyder am gynllun 5 pwynt. Mae'r gwaith wedi'i wneud ar 2 o'r pwyntiau hyn yn benodol. Y pwynt cyntaf oedd sefydlu canolfan ragori a fyddai'n gwneud yn fawr o arbenigedd Magnox a'r adnoddau sydd ar gael. Mae canolfan fonitro hefyd yn cael ei hystyried a'r cam nesaf yn y cyd-destun hwnnw fydd craffu'n fanylach ar yr opsiynau sydd ar gael. Ystyriwyd sefydlu canolfan ddata ac roedd Trawsfynydd yn safle ffafriol. Byddai angen cynhyrchu llawer o bŵer yn ogystal â sicrhau cyflenwad digonol o ddŵr ar gyfer systemau oeri; mae'r rhain yn adnoddau sydd ar gael yn Nhrawsfynydd eisoes. Caiff y cynllun ei ddatblygu os dangosir digon o ddiddordeb.

c. Mae agwedd sinigaidd iawn at y daflen ffeithiol a ddosbarthwyd. Nid yw pobl yn credu'r hyn mae'r awdurdodau'n ei ddweud wrthynt. Mae ambell i ffaith ar y daflen sy'n gamarweiniol. Rydych yn sôn am ddiwydiant 'carbon isel', ond nid yw hyn yn wir. Wrth gloddio am wraniwm, adeiladu gorsaf bŵer sy'n llosgi glo a datgomisiynu, mae'r lefelau carbon yn uchel.

Rydym yn cyhoeddi'r hyn yr ystyriwn ni'n ffaith. Mae cynhyrchu niwclear yn cael ei ystyried yn ddiwydiant carbon-isel yn gyffredinol. Ceir allyriannau carbon gyda phaneli solar a melinau gwynt ac ati. Mae carbon yn annatod ym mhob math o gynhyrchu.

10. Unrhyw fater arall

10.1. Cafwyd cais gan bennaeth atal ymbelydredd a llygredd yng Nghaerdydd i drefnu cyfarfod gyda'r rhanddeiliaid. Byddai'n dda petai cynrychiolaeth yn bresennol.

10.2. Mae cyfnod hir ers i'r rhanddeiliaid ymweld â'r safle, ac atgoffir yr aelodau bod y safle ar agor bob amser pe dymunid trefnu ymweliad. Ar ôl y tân diweddar, byddai'n gyfle da i ymweld â'r safle diogelwch tân a gweld sut mae'n gweithio. Cynigwyd y gellid cyfuno'r cyfarfod ar Fedi 26 gydag ymweliad â'r safle. Derbyniwyd y cynnig.

10.3. Mae nifer y staff yn yr adran gyfathrebu wedi gostwng i 1 o ganlyniad i ail-strwythuro. Mr Ian Edwards fydd yn gyfrifol am y rhanddeiliaid ac mae'n edrych ymlaen yn eiddgar at gyd-weithio â'r aelodau. Mae'r manylion cyswllt yn parhau yr un peth sef: trawsinfo@magnoxnorthsite.com neu 01766543384.
Diolchwyd i Sian Jones a Delyth Heath am eu cyfraniad i'r grŵp a dymunwyd pob lwc iddynt yn eu gyrfaoedd.

10.5. Dymunwyd pob hapusrwydd i Mrs Angharad Reyner a'i gŵr ar enedigaeth eu plentyn.

11. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf
Cynhelir cyfarfod nesaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar ddydd Llun, 5 Rhagfyr 2011. Hwn fydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad.